# Bwletin Ysgol Glanrafon



**Wythnos gwrth- fwlio Diwnod sanau gwahanol**

***Antibullying week Odd socks day***

***Digwyddiadau Arbennig***

- *Yr estyniad newydd*
- *Prosiect Cerdd NWIMF.com*
- *Wythnos gwrth fwlio*

**Plant Mewn Angen**
**Codwyd/Raised £350**
**Diolch bawb!**



## Wythnos Gwrth-Fwlio/*Anti Bullying week!*

Mi gawsom ni wythnos fendigedig yn dathlu wythnos gwrth-fwlio. Dysgodd y disgyblion am fwlio a diffiniad o beth ydy bwlio. Fe wnaethant holiadur, creu poster a chreu cân cyfnod allweddol 2 am wrth-fwlio. Cafwyd pleidlais ar y geiriau gwrth- fwlio orau a dosbarth Mrs Hogg oedd yn fuddugol. Dyma'r geiriau.

*We had a great anti bullying week. The pupils learnt about bullying and about the definition of bullying. They filled a questionnaire, designed a poster and Key stage 2 created their very own Ysgol Glanrafon anti-bullying song. All key stage 2 pupils voted that Mrs Hogg's class' words were the best! Please see our Bullying song words.*



Un Gair Caredig

Rhowch im un,
Un gair,
Un gair Caredig

Rhowch im un,
Un gair,
Un gair Caredig

Plant Ysgol Glanrafon ydym ni,
Peidiwch a'n bwlio, clywch da chi,
Un gair caredig a gwên o fri,
Wythnos gwrth fwlio hapus i chi!

Bod yn hapus iawn,
Yn y bore a'r prynhawn,
Dewis geiriau'n ddoeth,
Gwneud y dewis iawn.

Rydym ni'n garedig,
Gwerth sydd yn arbennig,
Parch, cydweithio, ffrindiau, gofal,
Dim lle i fod yn ddi-ofal!!

**COVID 19**

**Cadwch eich plentyn adref ac ewch am PCR os oes ganddynt symptomau.**

**Keep your child at home and take them for PCR if they have any covid symptoms**



**<u>Top Brass Trio</u>**

Daeth Dafydd, Corey a Tom i berffomio'n fyw I'r disgyblion. Roedd o'n fendigedig! Diolch i Gwyl Gerdd Ryngwadol Gogledd Cymru.
Cliciwch ar y linc isod i'w gweld yn chwarae

*The pupils enjoyed a special live brass performance. It was amazing! Thank you to North Wales International Music Festival for organizing. Click on the link to see them in action.*

*https://hwbwave15-my.sharepoint.com/:v:/g/personal/prifglanrafon_hwbcymru_net/EZUDxT_d-7ZOgj4mTDjApEMBb5Tl0TFukqNyJiaoNiSFkQ?e=ZamGds*

## Cyngor Ysgol/School Council

Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn brysur yn cyfarfod ac yn gwneud penderfyniadau. Maent wedi bod yn trafod plant mewn angen ac wythnos gwrth-fwlio. Gwelwch bamffled disgyblion ar wythnos gwrthfwlio isod. Maent wedi penodi

Cadeirydd/Chair: Lili Ellis bl 6
Is Gadeirydd/Vice Chair: Awen Hogg
Ysgrifennydd/Secretary: Harri Jones

The school council have been busy making decisions. They have been discussing Children in Need and Anti bullying week. Please see the School councils booklet on anti bullying below.



**Gwrth fwlio Ysgol Glanrafon**
**Taflen disgyblion**

Cofiwch fod bwlio yn:

- Digwydd dro ar ôl tro
- Fwriadol
- Brifo
- Anghydbwysedd pŵer

**Nid yw pob ymddygiad sydd yn brifo yn fwlio ond mae holl ymddygiad sydd yn brifo yn annerbyniol.**

Yn Ysgol Glanrafon, rydym yn paratoi amgylchedd ddiogel, hapus ac ysgogol y gall pob plentyn ddatblygu i'w lawn botensial. Rydym yn cydnabod fod bwlio yn gallu digwydd a thrwy gynnig cyngor gallwn gydweithio er mwyn datrys unrhyw achos o fwlio yn sydyn ac yn llwyddiannus.

"Mae plant sydd yn teimlo'n dda am eu hunain yn anodd i'w bwlio ac nid ydynt yn bwlio eraill."

Gall bwlio fod yn:

- Gofyn am arian
- Galw enwau
- Bygwth
- Tynnu coes yn gas
- Edrych yn gas ar rhwyun
- Cicio
- Tynnu gwallt
- Gwthio
- Taro
- Gwneud i rhwyun wneud rywbeth dydyn nhw ddim eisiau gwneud
- Bygwth trwy ebost/neges destun
- Gadael rhywun allan
- Digwydd yn aml/pob dydd

<u>Unrhyw bryderon?</u>
Dywedwch wrth ffrind, aelod o staff neu riant

<u>Cofiwch</u>
Fod problem wedi ei rannu ddim yn broblem mwyach



WHY DO PEOPLE BULLY?
TO PRETEND THEY ARE TOUGH
TO TRY TO GET OTHERS TO LIKE THEM
TO HIDE THEIR OWN FEARS
THEY COPY OTHERS WHO BULLY
THEY ARE UNHAPPY
THEY DON'T LIKE WHO THEY ARE
ARE THERE ANY OTHER REASONS?

BULLYING:
Bullying is when someone repeatedly and on purpose says or does mean or hurtful things to another person who has a hard time defending himself or herself.

ChildLine 0800 1111

Na i fwlis!!!

Gall arwyddion o fwlio gynnwys

- Colli arian/arian cinio yn aml
- Crio'u hunain i gysgu
- Dillad neu eiddo yn cael ei difrodi yn aml
- Eich plentyn ddim eisiau mynd i'r ysgol.
- Cleisiau neu anafiadau heb esboniad.
- Dod adref yn llwglyd.
- Ofn dweud beth sydd yn bod.
- Mae eich plenty yn dechrau bwlio brodyr a chwiorydd.
- Colli hyder
- Ofn ymateb i neges destun/ebyst

<u>Cofiwch</u>

- Byddwch yn garedig
- Dewch i ddweud wrth y staff

BYDDWCH YN GAREDIG

# Dyddiadur/Diary

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6/12/21 | Pawb | Raffl Cyndeithas Rhieni ar AGOR School gateway | PTA Raffle open school gateway |
| 10/12/21 | Pawb | Gwisgwch Siwmper Nadolig – Arian tuag at Achub y Plant | Wear a Christmas jumper Day – money towards Save the children |
| 14/12/21 | Blwyddyn 3 i 6 | Sioe Rithiol Tudur ac Anni | Virtual Tudur and Anni show |
| 14/12/21 | Meithrin - Flwyddyn 2 | Sioe Proffesor Llusern | Proffesor Llusern show |
| 15/12/21 | PAWB | Cinio Nadolig – Gwisgo Siwmper Nadolig | Christmas Dinner – Wear Xmas Jumper |
| 16/12/21 | Cyfnod Sylfaen/Foundation Phase | Partion Nadolig - Siwmper Nadolig | Xmas Parties –Xmas Jumper |
| 17/12/21 | Juniors / Yr Adran Iau | Partion Nadolig - Siwmper Nadolig<br>Tynnu'r raffl | Xmas Parties –Xmas Jumper<br>PTA Hamper Draw |
| 21/12/21 | Pawb | Gwasanaeth Cristingl | Chirstingle Service |
| 22/12/21 | Pawb | Diwrnod Olaf<br>Dillad eu hunain | Last day<br>Own clothes |
| 6/1/22 | Staff Ysgol Glanrafon | Diwrnod Jiwbili | Jubilee Day |
| 7/1/22 | Staff Ysgol Glanrafon | Hyfforddiant Mewn swydd | Teacher Training Day |
| 10/1/22 | Pawb | Ysgol yn agor | School Opens |
| 14/2/22 | PAWB | Hyfforddiant Mewn Swydd | Teacher Training Day |






**Pob disgybl I wisgo dillad eu hunain neu siwmperi 'Dolig**
**15/12/21**
**16/12/21**
**17/12/21**
**All pupils to wear Christmas Jumpers/own Clothes**



Blwyddyn 5 a 6
Gweithdy cerddorfa ailgylchu-
Recycled Orchestrsa workshop



Gwirfoddolwyr disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn canu yn y dref.
Volunteers for years 5 and 6 singing in town.

## Newyddion am cam 2 o'r estyniad

Bydd yn barod erbyn 11/2/22
Diwrnod olaf Cyfnod Sylfaen yn yr dosbarthiadau cyfredol 11/2/22
Rydym wedi penodi Hyfforddiant mewn swydd ar y 14/2/22 er mwyn rhoi cyfle i staff osod y dosbarthiadau cyn i'r disgyblion ddod i'r nôl i'r Ysgol ar 15/2/22. Bydd Cwmni Wynne yna yn dechrau ar cam 3 o'r prosiect sef gweithio ar yr ardal Cyfnod Sylfaen presennol.

## *News about Phase 2 of the extension*

*Ready by 11/2/22*
*Last day of Foundation phase pupils in their current classes 11/2/22*
*We have organized a teacher training day to help staff move and set up their new classes on the 14/2/22 before the pupils return on the 15/2/22.*
Wynne construction will then start on phase 3 of the build where they will be working on the current Foundation Phase areas.





**Y Pantomeim**

Cawsom ni amser arbennig yn Theatr Clwyd yn y Pantomeim!
We had a great time at the pantomime!

Cawsom ni amser da hefyd ar y bws!
We had a great time on the bus!



